# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 4YDD TACHWEDD, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 27 Hydref 2025)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

### AELODAETH (15)

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Olaf Cai Larsen |
| Edgar Wyn Owen | Sedd Wag |
| Arwyn Herald Roberts | Beca Roberts |
| Ioan Thomas | Sian Williams |
| John Pughe | Sedd Wag |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Anne Lloyd-Jones |
| Eryl Jones-Williams | Dewi Owen |

### Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cygnor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2025, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD DRAFFT COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL I GYNGHORWYR AR GYFER 2026/27** 7 - 12

Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith i gyflwyno'r adroddiad.

**6. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR YMESTYN Y DDYLETSWYDD AR AWDURDODAU LLEOL I DDARLLEDU CYFARFODYDD** 13 - 18

Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith i gyflwyno'r adroddiad.

**7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 19 - 24

Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad a Cara Williams, Swyddog Datblygu Aelodau i gyflwyno'r adroddiad.

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 17/06/2025**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd-Jones (Cadeirydd), Annwen Hughes, Arwyn Herald Roberts, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ioan Thomas, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Beca Roberts

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Mari Edwards (Rheolwr Dysgu a Datblygu) Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol) ac Iwan Edwards (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   Etholwyd y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am y flwyddyn 2025/26.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen J. Davies, Cai Larsen, Stephen Churchman a Sian Williams.

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. **MATERION BRYS**

   Ni nodwyd unrhyw faterion brys.

5. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2025, fel rhai cywir.

6. **DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Cyflwynwyd adroddiad drafft blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth. Esboniwyd ei bod yn ofynnol i'r Pennaeth gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal, eglurwyd fod yr adroddiad yn amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Esboniwyd fod yn adroddiad ar ffurf drafft ar hyn o bryd gyda cyfle i gyflwyno sylw ar ei gynnwys a'i ffurf. Pwysleiswyd y byddai'r adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor Llawn yn cynnwys argymhelliad i sefydlu wythfed Maes Hyfforddiant Craidd ar gyfer Aelodau Etholedig, sef Trais yn erbyn menywod, fel y bu i'r Pwyllgor gefnogi ym mis Chwefror 2025. Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau adeiladol yn ystod y cyfarfodydd dros y flwyddyn diwethaf. Nodwyd fod nifer o dimau yn cynorthwyo'r Pennaeth Adran i ddarparu'r gefnogaeth orau posib a diolchwyd i pawb am eu gwaith caled.

Adroddwyd fod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar yr ddarpariaeth yn y siambrau er mwyn ei foderneiddio. Nodwyd fod cryn dipyn o waith yn gorfod cael ei wneud yn y cefndir er mwyn cynnal cyfarfodydd aml leoliad o'r siambrau.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y ffordd syml ac effeithiol mae wedi'i gyflwyno.

Nododd Aelod fod diffyg adrodd i'r cyhoedd am y gwaith da sy'n cael ei gyflawni gan y Gwasanaeth Democratiaeth. Soniwyd fod y gwasanaeth wedi bod o gymorth eithriadol iddo yn dilyn colli ei olwg ac na fyddai wedi gallu parhau yn ei rôl fel Cynghorydd heb y cymorth. Diolchwyd i'r aelod am ei sylwadau a nodwyd y byddai ei sylwadau'n cael eu ychwanegu i'r adroddiad ar ei gais.

Nodwyd ei fod yn ddefnyddiol iawn cael lluniau ac enwau'r swyddogion yn y Gwasanaeth Democratiaeth yn rhan o'r adroddiad.

Mynegwyd pryder gyda cyfarfodydd craffu yn sgil prinder amser i graffu materion mewn dyfnder. Derbyniwyd y sylw a nodwyd y byddai'n help i'r adran petai'r Aelod yn darparu enghreifftiau o hyn er mwyn edrych arnynt yn unigol. Nodwyd ei fod yn broblem ar draws y Cyngor a ddim yn benodol i un pwyllgor craffu.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan gytuno i wneud mân addasiadau cyn ei argymell i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu.**

7. **DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn diweddaru am y ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau. Eglurwyd fod 7 maes craidd wedi eu hadnabod i Aelodau, sef y yr hyfforddiant craidd y mae angen i bob Aelod eu cyflawni er mwyn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol.

Nodwyd bod anogaeth cyson wedi'i roi i Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant craidd, fodd bynnag prin iawn yw'r cynnydd sydd wedi bod yn y niferoedd sydd wedi eu cwblhau ers mis Chwefror 2025. Esboniwyd fod recordiadau o'r 7 teitl craidd ar gael ar y mewnrwyd aelodau gan ystyried bod yr adnodd yma ar lein am wneud pethau'n haws i Aelodau gael mynediad i gwblhau'r teitlau yn eu hamser sbâr,

Eglurwyd y bydd yr hyfforddiant Trais sef yr wythfed maes craidd, am fod yn weithredol yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2025. Bydd recordiadau o'r hyfforddiant hefyd ar gael ar y mewnrwyd aelodau.

Mynegodd Aelod syndod fod cynifer yn parhau heb gwblhau'r cyrsiau craidd, yn enwedig gan fod recordiadau ar gael ar y mewnrwyd Aelodau. Nodwyd fod gwybodaeth ynghylch pa aelodau sydd wedi cwblhau yr hyfforddiant craidd yn fyw ar wefan y Cyngor ers mis Ebrill, ac felly'n wybodaeth gyhoeddus.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2yp a daeth i ben am 2:40yp

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod**: | 4 Tachwedd 2025 |
| **Pwnc** | Adroddiad Drafft Comisiwn Democratiaeth A Ffiniau Cymru Ar Gydnabyddiaeth Ariannol I Gynghorwyr Ar Gyfer 2026/27 |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar y penderfyniadau arfaethedig neu unrhyw feysydd perthnasol eraill er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Eleni, am y tro cyntaf, mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) yn gyfrifol am osod lefel y gydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr Cymru. Yn flaenorol, cyfrifoldeb y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd hyn, ond mae'r Panel bellach wedi dod i ben. Cyhoeddwyd yr adroddiad drafft ar y 23ain o Fedi 2025 yn amlinellu'r newidiadau a fwriedir ar gyfer blwyddyn Ariannol 2026-27. Mae cyfle i ymateb i'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno erbyn y **18fed o Dachwedd, 2025**.

2. Bydd y newidiadau drafft, petaent yn dod i rym, yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd Chwefror 2026 ac yn weithredol ar gyfer blwyddyn Ariannol 2026-27, sef o 1 Ebrill 2026.

**Rôl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

3. Fel y nodwyd uchod, dyma'r flwyddyn gyntaf i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fod yn gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad, ac fe nodir rhai newidiadau penodol yn yr egwyddorion sy'n cael eu cyflwyno ganddynt. Maent yn nodi'n glir eu bwriad i wneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith taliadau unwaith ym mhob cylch etholiadol. Bydd yr adroddiad cyn pob etholiad llywodraeth leol yn ystyried newidiadau mawr i'r fframwaith, gyda'r rhai rhyngddynt yn canolbwyntio ar uwchraddio blynyddol.

4. Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad drafft ar gyfer 2026-27 yn ystyried uwchraddio symiau lle bo hynny'n briodol, ond yn gadael y fframwaith heb ei newid. Bydd yr adroddiad nesaf, ar gyfer 2027-28, yn diweddaru'r fframwaith ar gyfer yr aelodau hynny a fydd yn cael eu hethol yn etholiadau lleol Mai 2027.

**Prif Benderfyniadau sy'n berthnasol i'r Cynghorwyr**

5. Mae copi llawn o'r adroddiad ar ei ffurf drafft i'w gael ar y ddolen isod.

   adroddiad drafft 2026-27

   Tâl ar gyfer Aelodau etholedig.

6. Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a'r swyddogaethau cysylltiedig â llywodraethu lleol. Mae wedi bod yn seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn o waith yr wythnos, ac nid yw'r Comisiwn yn newid hyn. Mae'r Comisiwn hefyd wedi nodi ei fod yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus a'r effaith y bydd ei benderfyniadau yn ei gael ar gyllidebau'r prif gynghorau.

7. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn iawn cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027. Bydd y cyflog sylfaenol yn cael ei alinio â thair rhan o bump o ASHE Cymru gyfan 2024 (Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion 2024 – Llywodraeth Cymru), y ffigwr diweddaraf oedd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn. Nodir felly fod y cynnydd i'r cyflog sylfaenol ac i'r uwch gyflogau yn 6.4%.

8. Y cyflog sylfaenol fydd **£21,044, ar gyfer 26/27,** sy'n gynnydd o 6.4%. Roedd y cyflog sylfaenol yn £19,771 yn 2025/26 ac £18,666 yn 2024/25.

9. Mae'r Comisiwn wedi nodi ei fod am edrych yn fanylach ar y berthynas rhwng cyflogau Cynghorwyr a'r berthynas gydag ASHE Cymru yn ystod y flwyddyn i ddod. ***Argymhellir fod aelodau'r pwyllgor yn croesawu'r gwaith yma yn arbennig gan fod gwahaniaeth rhwng y ganran cynnydd i gyflogau aelodau o gymharu â'r cynnydd o 3.2% a gafodd staff yn 25/26.***

10. Nid oes manylion yn yr adroddiad yn nodi y bydd pob Aelod yn derbyn y gydnabyddiaeth yn awtomatig, na manylion ynghylch adegau pan na fydd aelod unigol yn dymuno derbyn y swm neu gyfran ohono, a'r trefniadau sydd i fod mewn lle i hynny ddigwydd. ***Argymhellir fod Aelodau'r pwyllgor yn gofyn am gadarnhad o'r sefyllfa fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.***

Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.

11. Mae atodiad yr adroddiad yn nodi fod y terfyn (cap) ar nifer yr uwch gyflogau yn parhau i fod yn 18 ar gyfer Cyngor Gwynedd.

12. Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau ar gyfer uwch rolau, ac mae pob uwch gyflog yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Noder fod y cynnydd i'r elfen 'uwch' o'r cyflogau yn 6.4% i bob rôl. Gweler isod y ffigyrau perthnasol i Gyngor Gwynedd (grŵp B) ar gyfer 2026-27.

| | **Cydnabyddiaeth ariannol** | | |
|---|---|---|---|
| **Rôl** | **Tebygol 26/27** | **2025/26** | **2024/25** |
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £21,044 | £19,771 | £18,666 |
| Band 1: arweinydd | £71,025 | £66,727 | £62,998 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £49,717 | £46,709 | £44,099 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £42,615 | £40,036 | £37,799 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £31,567 | £29,657 | £27,999 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £31,567 | £29,657 | £27,999 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £25,253 | £23,726 | £22,406 |
| | | | |
| Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | £31,567 | £29,657 | £27,999 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor) | £25,253 | £23,726 | £22,406 |

13. Mae Pennaeth dinesig yn uwch-swydd mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff.

14. Noder nad oes manylion ynghylch a yw rôl y Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir), wedi eu cynnwys o fewn y terfyn neu beidio. (Roedd yn glir yn y gorffennol nad oedd o fewn y terfyn). ***Argymhellir fod Aelodau'r pwyllgor yn gofyn am gadarnhad o'r sefyllfa am yr uwch gyflogau i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.***

15. Mae'r adroddiad yn nodi nad oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddion a delir i Aelodau etholedig. Croesewir y rhestr ym mhennod 4 sy'n cadarnhau'r penderfyniadau sydd eisoes yn sefyll, yn arbennig y nodyn sy'n esbonio lle i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf (e.e. manylion costau teithio i gynghorwyr yn adroddiad 2022 – penderfyniad 9 a rhestr o'r costau cynhaliaeth diweddaraf ym mhwynt 81).

<u>Aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu</u>

16. Bydd cyflog cadeirydd y cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn cael ei osod ar £10,522 a chyflog is-gadeirydd yn cael ei osod ar hanner hynny, sef £5,261. Mae'r penderfyniad yma wedi bodoli ers rhai blynyddoedd ac yn cyfeirio at gyd-bwyllgorau Craffu o awdurdodau lleol, nid at y cyd-bwyllgor Craffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

<u>Aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg</u>

17. Nid oes newid i'r cyfraddau a argymhellir ar gyfer Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg ar gyfer 2026/27. Noder nad yw'r cyfraddau ar gyfer Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg wedi codi ers rhai blynyddoedd bellach. Fodd bynnag, mae pwyslais penodol ar 'swyddog priodol' o fewn yr awdurdod i bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod, ac i benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cyfuno nifer o gyfarfodydd. O ystyried fod y gyfradd fesul awr wedi ei chyflwyno yn wreiddiol er mwyn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio (e.e. Cyfarfodydd briffio am dri chwarter awr***), argymhellir fod Aelodau'r Pwyllgor yn gofyn i'r Comisiwn bwysleisio'r angen i ddefnyddio'r gyfradd fesul awr i ddangos fod Cynghorau sir yn ddarbodus yn ariannol ac yn talu'n deg am y gwaith sy'n cael ei gyflawni.***

18. Noder fod y Comisiwn eisoes wedi adnabod fod taliadau ar gyfer Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg yn bwnc penodol i gael sylw yn ystod 2026/27. ***Argymhellir fod Aelodau'r Pwyllgor yn pwysleisio'r angen i'r pwnc yma gael ystyriaeth deg gan ei bod yn anodd denu Aelodau lleyg i gyflawni gwaith hynod bwysig, ac felly fod yn rhaid i'r gydnabyddiaeth ariannol i'r Aelodau hyn hefyd gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn yr un modd â'r gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Etholedig.***

19. Gweler isod y cyfraddau cyflog cyfredol fydd yn sefyll ar gyfer 2026/27.

| Rôl | Taliad cyfradd fesul awr | Cyfradd talu hyd at 4 awr | Cyfradd talu 4 awr a throsodd |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau, a phwyllgorau Archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, pwyllgor Craffu Addysg, Pwyllgor Craffu trosedd ac Anrhefn a Phwyllgor Archwilio | £26.25 | £105 | £210 |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n Aelodau o Bwyllgorau Safonau Prif Gynghorau | £26.25 | £105 | £210 |

Taliadau i Aelodau cynghorau cymuned a thref

20. Noder fod addasiad yn y telerau ar gyfer Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref am 'iawndal am golled ariannol' gyda'r Comisiwn wedi nodi yr angen i wneud gwaith i hyrwyddo mwy o Aelodau cynghorau tref a chymuned i dderbyn yr arian yn ystod 2026/27.

Gwaith i'r dyfodol

21. Mae ffocws clir gan y Comisiwn yn ei adroddiad ar y gwaith sydd i ddod i'r dyfodol. Mae Pennod 1 yn nodi'r gwaith sydd ar y gweill ac yn rhoi amlinelliad o'r hyn sydd dan ystyriaeth ar gyfer pob pennawd. Maent wedi nodi rhai pynciau arwyddocaol penodol (yn ogystal â'r gwaith blynyddol o uwchraddio cyflogau):

- Mae Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried taliadau ailsefydlu ar gyfer yr aelodau etholedig hynny sy'n colli eu seddi mewn etholiad, gyda'r bwriad o friffio cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar yr hyn a fyddai, ym marn y Comisiwn, yn gynllun talu priodol.
- Maent am adolygu'r fframwaith ar gyfer sut y cydnabyddir rolau uwch yn ariannol mewn prif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben, gan wneud newidiadau lle bo hynny'n briodol.
- Nodir hefyd eu bod yn edrych ar y mesur a ddefnyddir i benderfynu ar uwchraddio blynyddol lefelau cydnabyddiaeth ariannol i asesu p'un a yw'r mynegai yn parhau i fod y mwyaf perthnasol i'w ddefnyddio ai peidio, ac i ailasesu llwythi gwaith aelodau.

22. Yn ychwanegol, maent hefyd wedi nodi eu bwriad i edrych ar daliadau i Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg, ac hefyd i annog Aelodau Cynghorau Cymuned a thref i dderbyn lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt.

**Argymhelliad**

23. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am:

- sylwadau ar y penderfyniadau arfaethedig neu unrhyw feysydd perthnasol eraill er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 4 Tachwedd 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Ar Ymestyn Y Ddyletswydd Ar Awdurdodau Lleol I Ddarlledu Cyfarfodydd |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno sylwadau ar yr ymatebion drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad, fel a nodir yn **Atodiad A**. |
| **AWDUR (ON)** | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

## 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ffurfiol yn ceisio barn ynghylch a ddylid ymestyn y ddyletswydd statudol i ddarlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol, y tu hwnt i'r cyfarfodydd cyngor llawn sydd eisoes yn destun y ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae copi o'r ymgynghoriad llawn i'w weld trwy ddilyn y ddolen isod:

[Ymgynghoriad ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd [HTML] | LLYW.CYMRU]

1.2 Ar hyn o bryd, dim ond cyfarfodydd y Cyngor llawn sy'n ofynnol eu darlledu, ond mae nifer o awdurdodau yn ffrydio cyfarfodydd eraill yn wirfoddol. Mae Cyngor Gwynedd yn gweddarlledu y cyfarfodydd a ganlyn:

- Cyngor Llawn
- Cabinet
- Cynllunio
- Craffu (y tri Phwyllgor Craffu)

1.3 Noder fod y cyfarfodydd uchod hefyd yn gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn aml-leoliad (hybrid) yng Ngwynedd. Petai ymestyn y gofyn i weddarlledu mwy o bwyllgorau, ni fyddai'n ofynnol cynnal y cyfarfodydd hynny yn gyfarfodydd aml-leoliad. Fodd bynnag, byddai'r gwaith o baratoi a chynnal y gweddarlledu yn gyfatebol i gynnal cyfarfod aml-leoliad.

## 2. Amcanion yr Ymgynghoriad

2.1 Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch:

- A ddylid **ymestyn y ddyletswydd i gynnwys pwyllgorau eraill** megis y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Chynllunio;
- A ddylid gosod **dyletswyddau tebyg ar Awdurdodau Tân ac Achub** ac **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**;
- Pa **gyfnod cadw** ddylai fod ar recordiadau electronig o gyfarfodydd darlledu;
- Y **costau, effaith ac ymarferoldeb** posibl i awdurdodau lleol.

2.2 Cynnig Gweinidogion Cymru yw ei gwneud hi'n ofynnol i gyfarfodydd pwyllgorau statudol canlynol y prif gynghorau gael eu darlledu:

- Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd, *
- Llywodraethu ac Archwilio, *
- Trwyddedu, *
- Cynllunio,
- Trosolwg a Chraffu,
- a Safonau, *
- yn ogystal â chyfarfodydd Cabinet

2.3 Noder * uchod yn dynodi'r gofyn ychwanegol i'r ymarfer cyfredol fyddai'n effeithio ar Gyngor Gwynedd. Ni fyddai'n ofynnol cynnal y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd aml-leoliad, ond byddai'n rhaid i swyddogion fod ar leoliad yn y siambrau er mwyn gweddarlledu, a byddai'r gwaith 'gosod' a'r adnoddau ar gyfer rhedeg y cyfarfodydd yn gyffelyb i'r gwaith gosod a chynnal cyfarfod aml-leoliad sy'n cael ei weddarlledu.

2.4 Yn amlwg, mae goblygiadau penodol o ran adnoddau wrth ymestyn y ddarpariaeth ymhellach, yn arbennig gan fod technoleg gyfredol ar gyfer gweddarlledu yng Nghyngor Gwynedd ar seiliau gwan iawn gan ei bod yn ddarpariaeth analog gan wahanol gwmnïau, ac felly'n gallu methu yn aml. Rhaid ystyried uwchraddio'r siambrau, adnoddau staffio digonol ac arbenigol, costau trwyddedau i weddarlledu ac ati wrth ystyried yr ymateb.

<u>Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub</u>

2.4 Mae'r adroddiad hefyd yn ymgynghori a ddylid ymestyn y ddyletswydd i weddarlledu ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Tra ystyrir mai mater i'r cyrff cyhoeddus hynny yw ymateb, mae'r egwyddor o sicrhau tryloywder i'r cyhoedd yr un mor berthnasol i'r cyrff hynny ag ydynt i awdurdodau lleol. Noder nad yw'r ymgynghoriad wedi'i ymestyn i gynnwys dyletswydd i weddarlledu ar Gydbwyllgorau Corfforedig.

<u>Cyfnodau Cadw</u>

2.5 Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod Deddf 2021 yn datgan, mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd llawn prif gynghorau, bod yn rhaid i recordiad o'r darllediad fod ar gael yn electronig am gyfnod penodol ar ôl y cyfarfod. Nid yw'r term 'cyfnod penodol' wedi cael ei ddiffinio yn y gyfraith ac felly mater i bob prif gyngor yw pennu hynny. Mae arferion yn amrywio ledled Cymru. Mae gan Weinidog Cymru ddiddordeb mewn ceisio barn ynghylch cyfnod cadw recordiadau o'r cyfarfodydd, ac yn holi a ddylai'r cyfnod cadw fod yr un fath â chyfnod cadw cofnodion ysgrifenedig electroneg cyfarfodydd, hynny yw, chwe blynedd.

2.6 Nodir ar y wefan bod y cyfnod cadw ar gyfer recordiadau o bwyllgorau Cyngor Gwynedd yn 6 mis ac y gellir cysylltu am gopi y tu allan i'r cyfnod hwn. Mae'r recordiadau yn fyw ar y safle we am bron i 12 mis, ac mae cost penodol i'r awdurdod gael gafael ar unrhyw recordiad yn dilyn y cyfnod hwnnw.

## 3. Camau nesaf ac argymhellion

3.1 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 28 Tachwedd 2025.

3.2 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno sylwadau ar yr ymatebion drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad, fel a nodir yn **Atodiad A**.

3.3. Cyflwynir sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar yr ymatebion drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad, fel a nodir yn Atodiad A, i gyfarfod Cabinet y Cyngor ar 11 Tachwedd er mwyn cymeradwyo cyflwyno ymateb swyddogol i Lywodraeth Cymru ar ran yr awdurdod.

**ATODIAD A**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad.**

| |
|---|
| ***Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd yn fyw i gynnwys cyfarfodydd ychwanegol prif gyngor?*** |
| Mae'r Cyngor yn croesawu'r egwyddor o dryloywder democrataidd a'r ymgais i ehangu mynediad y cyhoedd at waith llywodraeth leol ac fel dull o gryfhau atebolrwydd cyhoeddus. Fodd bynnag, mae nifer o faterion ymarferol ac ariannol y mae'n rhaid eu hystyried cyn gweithredu unrhyw ddyletswydd newydd.<br><br>Mae'r Cyngor yn pryderu y gallai'r ddyletswydd newydd arwain at bwysau ariannol sylweddol, yn enwedig ar gyfer cyfarpar darlledu, storio fideo ac adnoddau staffio. Byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid parhaus penodol i gefnogi'r ddyletswydd estynedig.<br><br>O ystyried bod y gofyn cyfredol i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor Llawn, argymhellir bod hyn yn cael ei adnabod fel Cam 1 o'r siwrne. Awgrymir y dylid ystyried ymestyn y gofyn cyfreithiol i gynnwys cyfarfodydd sydd o'r diddordeb uchaf i'r cyhoedd fel Cam 2, yn benodol cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Cynllunio a Phwyllgorau Craffu. Dylid wedyn ymestyn i Gam 3 i gynnwys y Pwyllgorau Gwasanaethau Democratiaeth, Llywodraethu ac Archwilio, Trwyddedu a Safonau, ond bod hyn yn gam i'r dyfodol. |
| ***Cwestiwn 2 - A oes cyfarfodydd pwyllgorau eraill prif gyngor rydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y ddyletswydd ar eu cyfer?*** |
| Gweler paragraff olaf yr ymateb i gwestiwn 1. |
| ***Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y gofyniad i ddarlledu cyfarfodydd i gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub?*** |
| Mae'r egwyddor o sicrhau tryloywder i'r cyhoedd yr un mor berthnasol i'r cyrff hynny ag ydynt i awdurdodau lleol. Argymhellir bod yr awdurdodau hyn yn cychwyn ar eu trefniadau gweddarlledu fel rhan o'r ymestyn y soniwyd amdano fel 'cam 2' yn ymateb Cyngor Gwynedd i gwestiwn 1 uchod. |
| ***Cwestiwn 4 - A ddylai darlledu cyfarfodydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub gael eu hymestyn i gyfarfodydd y tu hwnt i gyfarfodydd llawn yr awdurdodau, ee pwyllgorau safonau?*** |
| Mater i'r awdurdodau perthnasol yw rhoi arweiniad wrth ymateb, fodd bynnag mae'r egwyddor o dryloywder yn allweddol bwysig. |
| ***Cwestiwn 5 - Mewn perthynas â phrif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, ydych chi'n cytuno y dylid cadw recordiadau o gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu*** |

| |
|---|
| Dylid adnabod cyfnod cadw penodol ar gyfer cadw recordiadau o gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu, megis 6 neu 12 mis. Rhaid cofio mai cofnod ffurfiol y pwyllgor yw'r cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod ac nid recordiad o'r gweddarllediad.<br><br>Yn ogystal, rhaid cofio fod cost ar gyfer cadw'r recordiadau, gan eu bod yn ffeiliau digidol mawr. |
| ***Cwestiwn 6 - Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol ehangu'r ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?*** |
| Yn gyffredinol i Gymru, mae'r effaith o ymestyn y ddyletswydd i weddarlledu pwyllgorau'r cynghorau am fod yn effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gyda'r iaith i'w chlywed mewn trafodaethau byw mewn Awdurdodau Lleol. Byddai'n angenrheidiol i ddeddfwriaeth nodi'n glir bod disgwyl i bob pwyllgor ddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn yn unig.<br><br>Yng Nghyngor Gwynedd byddai effaith cadarnhaol ar y Gymraeg o ehangu'r gofynion. Gan y cynhelir pob pwyllgor trwy gyfrwng y Gymraeg eisoes, byddai eu gweddarlledu yn sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed dros y we yn fyw yn fwy aml. Rydym yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Noder bod y trefniant o gynnal pwyllgorau trwy'r Gymraeg yn drefniant DI-OFYN yng Ngwynedd. Nid oes rhaid i unrhyw un wneud cais o flaen llaw i siarad Cymraeg. Byddai sicrhau gofyniad i bob Awdurdod Lleol ddarparu cyfieithu ar y pryd yn ddi-ofyn ar gyfer pob cyfarfod, a bod dyletswydd ar bob Cadeirydd i annog siaradwyr i gyfrannu'n Gymraeg yn hybu'r Gymraeg ac yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Os oes rhaid i siaradwyr Cymraeg wneud cais i gael siarad Cymraeg mewn cyfarfod, yna mae'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol. |
| ***Cwestiwn 7 - Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd er mwyn sicrhau: • ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a • nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?*** |
| Gweler uchod ynghylch trefniant di-ofyn i gyfrannu yn y Gymraeg mewn pwyllgorau. Byddai hynny yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl gael gwrando ar y Gymraeg yn fyw mewn pwyllgorau, neu wrando ar recordiad wedyn. Bydd hyn yn ei dro yn cynorthwyo datblygiadau a darpariaeth Deallusrwydd Artiffisial yn y Gymraeg. Wedi dweud hynny, rhaid hefyd sicrhau bod digon o swyddogion sydd â'r sgiliau cywir yn yr iaith i sicrhau cywirdeb a safon wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. |

| |
|---|
| Mae rhai awdurdodau hefyd yn defnyddio neu'n ystyried defnyddio is-deitlau wrth weddarlledu - dylid sicrhau bod is-deitlau Cymraeg hefyd ar gael fel mater o gydraddoldeb i bawb. |
| ***Cwestiwn 8 - Esboniwch pa effeithiau cadarnhaol a negyddol ydych chi'n credu y mae darlledu cyfarfodydd y cyngor yn eu cael ar grwpiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, a pha fesurau y gellir eu cymryd i sicrhau mynediad a chynrychiolaeth deg.*** |
| Yn gyffredinol mae gweddarlledu mwy o gyfarfodydd y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar wahanol grwpiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol gan leihau anghydraddoldeb ar yr un pryd.  Mae sicrhau democratiaeth agored i bawb yn egwyddor bwysig y dylid ei pharchu.<br><br>Fodd bynnag, nid yw gweddarlledu yn ateb y gofyn i bawb.  Rhaid cofio bod rhai pobl mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd gwledig  sydd heb fynediad at ddarpariaeth gwe digonol, neu ddiffyg mynediad at gyfarpar i wylio gweddarllediadau.  Yn ogystal, ni fydd yn hwylus i bawb gan y bydd gwrando dros gyfrifiadur ac edrych ar sgrîn yn anodd i rai. |
| ***Cwestiwn 9 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma*** |
| Noder nad oes unrhyw gyfeiriad yn yr ymgynghoriad at yr angen i weddarlledu cyfarfodydd Cydbwyllgorau Corfforedig.<br><br>Ystyrir y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad penodol ar hyn, ynghyd â chyllideb ar gyfer gwireddu'r elfen bwysig hon. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 4 Tachwedd 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad |
| **AWDURON** | Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad<br>Cara Williams, Swyddog Datblygu Aelodau |

**1.0 TROSOLWG**

1.1 Mae'r rhaglen hyfforddiant yn esblygu a thyfu'n barhaus, a hyn trwy ymgynghori gyda Penaethiaid Adrannau a Swyddogion ar gynnwys y rhaglen yn ogystal a chynnwys teitlau ar gais Aelodau. Os oes awgrymiadau am anghenion hyfforddiant ymhellach i'r hyn sydd wedi ei gynnig yn dilyn yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur, yna gwerthfawrogi'r cael gwybod drwy gysylltu gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu neu'r Swyddog Datblygu Aelodau.

1.2 Mae **8** Maes Craidd wedi eu hadnabod i Aelodau. Y teitlau Craidd yma yw'r hyfforddiant y mae ei angen ar pob Aelod i'w cwblhau fel **isafswm** i allu cyflawni eu gwaith yn effeithiol. Maent yn ymwneud â meysydd statudol a llywodraethiant y Cyngor. Dylai'r **holl** Aelodau fod yn eu cwblhau ar gychwyn **pob** tymor etholiadol.

1.3 Er bod anogaeth gyson i Aelodau fod yn cwblhau'r hyfforddiant Craidd yma, a darpariaeth i hwyluso sesiynau ar y Fewnrwyd, prin iawn yw'r cynnydd wedi bod ers mis Chwefror 2025.
Dyma ddiweddariad o lle ydym arni gyda'r teitlau Craidd, gan ystyried y 68 aelod presennol:

| **Teitl**<br>**Diweddariad Hydref 2025** | **Niferoedd wedi Cwblhau** | **Niferoedd heb Gwblhau** |
|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 49 | 19 |
| Cod Ymddygiad | 53 | 15 |
| Cydraddoldeb | 39 | 29 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 33 | 35 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 56 | 12 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 49 | 19 |
| Rhiantu Corfforaethol | 46 | 22 |

| **ER GWYBODAETH - Mae hwn yn deitl craidd ychwanegol ers mis Gorffennaf 2025.** Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol | 50 | 18 |
|---|---|---|

1.4 Mae'r tabl dilynol yn dangos y newid sydd wedi bod ar y niferoedd sydd wedi cwblhau'r teitlau Craidd dros y flwyddyn ddiwethaf:

| **Teitl Craidd (niferoedd wedi cwblhau)** | **Chwefror 2024** | **Tachwedd 2024** | **Chwefror 2025** | **Tachwedd 2025** |
|---|---|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 44 | 50 | 51 | 49 |
| Cod Ymddygiad | 39 | 50 | 54 | 53 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 14 | 27 | 34 | 33 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 33 | 33 | 57 | 56 |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 27 | 39 | 39 | 39 |
| Gwybodaeth am Bobl - Eich Cyfrifoldeb Chi | 45 | 51 | 52 | 49 |
| Rhiantu Corfforaethol | 39 | 46 | 46 | 46 |
| Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol | | | | 50 |

1.5 Er mwyn hwyluso cyfleoedd i Aelodau fod yn cwblhau yr hyfforddiant Craidd, datblygwyd adnodd ar-lein i gynnig mwy o hyblygrwydd. Mae recordiadau o'r 8 Teitl Craidd bellach ar gael Fewnrwyd yr Aelodau. Mae'r adnodd yma yn sicrhau bod pob Aelod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant ar unrhyw amser.
Os oes unrhyw broblem yn codi wrth fod yn methu a chwblhau'r hyfforddiant wrth ddefnyddio'r adnodd hwn, dylid cysylltu gyda ni yn y gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn i ni allu bod o gymorth a sicrhau bod pob Aelod yn cwblhau'r hyfforddiant.

1.6 Fel ag y mae pethau yn sefyll ar hyn o bryd, mae 12 o Aelodau wedi cwblhau pob un o'r wyth teitl Craidd, gydag 8 o'r rheini wedi cwblhau yr hyfforddiant yn y cyfnod diweddar ers Mai 2022.
Ar y llaw arall, mae 6 Aelod heb erioed gwblhau unrhyw un o'r hyfforddiant Craidd sydd yn allweddol i'w rôl. Mae'r ffigwr yna yn codi i 9 wrth edrych ar y cyfnod diweddar ers Mai 2022.

## 2.0 DYSGU A DATBLYGU

2.1 Mae'r gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen i ymateb i **ganlyniadau'r holiadur Anghenion Dysgu a Datblygu**. Mae hyfforddiant ar Gostau Byw a Newidiadau yn y Byd Budd-daliadau eisoes wedi cymryd lle, yn ogystal â sesiwn ar 'Ymateb i Dwyll yn yr Oes Ddigidol'. Mae 'Arweinyddiaeth Cymunedol a gwaith Ward' yn deitl sy'n derbyn sylw ar hyn o bryd, gyda'r gobaith o allu trefnu cwrs yn y flwyddyn newydd. Yn ychwanegol I'r holiadur, cafwyd cais i drefnu hyfforddiant Amddifadu o Ryddid, yn benodol ar gyfer

aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal. Mae gwahoddiad wedi mynd i'r holl Aelodau ar gyfer yr hyfforddiant ar y 5ed o Dachwedd.
Mae'r Rhaglen Hyfforddiant ddiweddaraf ar gael ar Fewnrwyd yr Aelodau ac fel atodiad ar ddiwedd yr Adroddiad hwn. Bydd y gwaith o boblogi a diweddaru'r rhaglen yn parhau i ddigwydd dros y misoedd nesaf wrth ymgynghori gyda'r Adrannau.

2.2 Mae cynnig i Aelodau fod yn derbyn **sgwrs Datblygiad Personol** gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu neu Swyddog priodol arall a fyddai'n cyflawni yr un nod. Pwrpas y sgyrsiau yma yw i roi'r cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, ac efallai llunio Rhaglen Ddatblygu Bersonol i gwrdd a'u anghenion. Bydd y ddeilliannau o'r sgyrsiau datblygol yma yn caniatáu i ni fel gwasanaeth gynnwys amrediad o feysydd yn ogystal â dulliau/profiadau datblygol. Mae hefyd yn werthfawr i ni wrth lywio'r Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.

Cynigiwyd hyn i'r Aelodau Cabinet yn y lle cyntaf, ac mae'r cynnig bellach yn agored i'r holl Aelodau. Bydd gwybodaeth bellach am y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Newyddlen Aelodau mis Tachwedd.

2.3 **Ymgyrch Ford** - Y llynedd cyhoeddwyd y Protocol Plismona Amddiffyn Democratiaeth a sicrhawyd cyllid i ehangu'r cynnig diogelwch i gynnwys Swyddogion Etholedig ehangach. Mewn ymateb i'r bygythiad cynyddol i'n democratiaeth a chamdriniaeth a gyfeiriwyd at Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd ac Aelodau Etholedig, mae rhywfaint o'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio i greu rôl Cynghorydd Swyddogol Etholedig yr Heddlu. Fe benodwyd Gareth Jaggard i'r rôl hwnnw gydag Heddlu Gogledd Cymru.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn edrych ar sut y bydd gweithrediad Ymgyrch Ford yn edrych a pha fesurau diogelwch ychwanegol y gellir eu cynnig ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei ddyddiau cynnar iawn ond mae'n gam i'r cyfeiriad cywir.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn cyflwyno sesiynau briffio diogelwch i Aelodau sy'n rhoi cyngor ar ddiogelwch personol ac ymwybyddiaeth o'r sefyllfa yn ehangach. Cynhaliwyd 2 sesiwn Cymraeg yn mis Mehefin gyda sesiynau Saesneg yn rhedeg yn fisol tan y Nadolig. Hyd yma, mae 19 o Aelodau wedi mynychu'r sesiynau sydd wedi eu cynnal. Cynigir 2 sesiwn pellach trwy gyfrwng y Saesneg sydd yn digwydd ar 11 Tachwedd a 10fed o Ragfyr. Bydd angen i Aelodau gysylltu â'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn nodi pa ddyddiad y maent am gwblhau'r hyfforddiant yma.

2.4 Cynnig newydd - **Hyfforddiant i Fentoriaid**.

Cynnig yw hwn i gefnogi gwaith Aelodau drwy unai adnabod Mentoriaid o blith Aelodau Cyngor Gwynedd i dderbyn hyfforddiant i ddod yn fentor neu adnabod Aelodau (newydd e.e. yn dilyn Etholiadau 2027) a fyddai'n elwa o gael eu mentora.

Y camau fydd yn cael eu cymryd (yn fras) fydd:-

- Adnabod Mentoriaid addas o fewn y grwpiau pleidiau neu o fewn arbenigedd (e.e. pwyllgor arbennig megis cynllunio)

- Datblygu'r unigolion yma fel Mentoriaid (trwy dderbyn hyfforddiant) a chael cyfle i ymarfer a magu profiad gydag Aelodau eraill
- Yn dilyn Etholiadau 2027, adnabod Aelodau (Mentai) fyddai’n hoffi cael mentor. Gall rhain fod yn Aelodau newydd, mewn rolau newydd, neu’n Aelodau i'w datblygu ar gyfer y dyfodol.

**Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau ar yr hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a chymeradwyo y camau a gynigir.**

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG
# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME
# 2025/26

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu/Must attend**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| Mai 7 May 2025 | (10:00 – 11:00) | Helpu pobl sy'n colli allan – hanfodion budd-daliadau i Gynghorwyr<br>Helping people who are missing out – Benefits basics for Councillors | Rhithiol<br>Virtual | Megan Meeke (Hyfforddiant Welfare Training( |
| Mai 12 May<br><br>Mai 21 May | (3:00 – 4:30)<br><br>(2:00 – 3:30) | Hyfforddiant Herio perfformiad Craffu<br>Scrutiny performance training | Rhithol<br>Virtual<br>l | Geraint Owen |
| Mehefin 4 June 2025 | (10:00 – 12:00) | Hyfforddiant Ffordd Gwynedd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Ffordd Gwynedd training for the Governance & Audit Committee | Wyneb i wyneb<br>Face to Face | Catrin Love |
| Mehefin 5 June 2025<br>Mehefin 16 June 2024 | (2:00 – 3:00)<br>(10:30 – 11:30) | Ymgyrch Ford (Diogelwch Personol Cynghorwyr)<br>Operation Ford (Councillor Personal Safety) | Rhithiol<br>Virtual | Heddlu Gogledd Cymru<br>North Wales Police |
| Mehefin 25 June 2025 | (9:00 – 4:30) | Gweithdy Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar<br>Progressive Community Leadership Workshop | Rhithiol / Virtual | CLlLC / WLGA |
| Gorffennaf 9 July 2025 | (2:00 – 3:00) | Codi ymwybyddiaeth am waith Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)<br>Raising awareness of the work of Gwynedd Consultancy | Rhithio<br>Virtual | Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a YGC / Head of Highways an YGC) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Medi 17 September 2025 (9:30 – 11:30)** | **Grwp 6 : Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol**<br>**Group 6 Training : Violence against women, domestic abuse and sexual violence** | **Rhithiol**<br>**Virtual** | **Cymorth i Ferched Cymru**<br>**Welsh Womens Aid** |
| Hydref 8 October 2025 (2:00 – 3:00) | Sesiwn codi ymwybyddiaeth ar waith y Tim Cymorth Busnes yn Adran Economi a Chymuned<br>Awareness Session on the work of the Business Support Team within the Economy & Community Department | Rhithiol<br>Virtual | Nia Carys Bowden a Tesni Haf Williams (Economi a Chymuned) |
| Tachwdd 5 November 2025 (10:00 – 12:30) | Hyfforddiant Amddifadu o Ryddid<br>Deprivation of Liberty Training | Rhithiol<br>Virtual | Non Mererid Pugh & Elen Parry |
| Rhagfyr 3 December 2025 (9:30 – 12:30) | LHDTCRA+ (Cydraddoldeb)<br>LGTBQ+ (Equality) | Ystafell Llyfni Room<br>Caernarfon | Adferiad |
| Ionawr 7 January 2026 | Rhydd / Free | - | - |
| Ionawr 28 January (10:00 – 1:00) | Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Global Internal Audit Standards and the Role of the Governance | Ystafell LLYFNI Room<br>Pencadlys y Cyngor<br>Council HQ, Caernarfon | Luned Fôn Jones |
| Mawrth 4 March (2:00 – 4:00) | Y Gymraeg yn y gymuned<br>Welsh in the Community | Rhithiol dros Teams<br>Virtual via Teams | Nia Haf Lewis a Llio Mai Hughes |
| Ebrill 15 April 2026 | Rhydd / Free | - | - |

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu/Must attend**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles